Bu'r tymor sy'n dirwyn i ben yn un prysur yn ein hanes eto a'r llu gweithgareddau yn ychwanegu at waith arferol yr ysgol. Cymerwyd rhan yn chwaraeon yr Urdd, yn bêl-droed, pêl rwyd a nofio, yn ogystal a'r cwis blynyddol. Cynhaliwyd ein gwasanaeth diolchgarwch yng Nghapel Horeb a chafwyd anerchiad gan y Parchedig Peter Thomas. Gwnaed casgliad arbennig tuag at Glefyd y Siwgr yn ystod y gwasanaeth hwn. Perfformiwyd drama fer, "Guto Ffowc" yn y cyngerdd doniau leol yn Neuadd y Penrhyn a chafwyd ail gyfle i'w gweld ar ddydd Plant mewn angen. Casglwyd swm deilwng ar y diwrnod arbennig hwnnw drwy amrywiol ffyrdd, o osod llwybr arian o amgylch yr ysgol i stondinau a chystadleuth gwisg ffansi. Bu rhai o'r plant yn darllen yn ddiwyd ar gyfer y cwis llyfrau tra bo nifer ohonynt yn cael hwyl ar y cynllun "Darllen Difyr". Braf oedd gweld enwau tri, Ellen Davies, Lynne Hughes a Meilyr Howells ar dudalennau CIP mis Rhagfyr, wedi ennill gwahanol gystadleuthau yn y cylchgrawn. Cyhoeddwyd llythyr Rhys Teifi yn rhifyn mis Tachwedd. Da iawn chi. Gwelsom berfformiad o'r "Silver Fox" gan gwmni "Northern and Scottish" a buom yn Theatr y Werin i'r pantomeim 'Twm Sion Cati'. Bu rhai o'r plant yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Sul yr Urdd a gynhaliwyd yng Nghapel y Tabernacl, Aberaeron ac erbyn hyn mae gweithgareddau adran yr ysgol wedi ail-gychwyn. Cafodd y plant hŷn gyfle i fod yn rhan o brosiect y Cyngor Gwarchod Natur drwy blannu coed ger y llyn ar fferm Cwmbura. Rhaid llongyfarch y tîm pêl-droed - maent yn ddi-guro hyd yn hyn a hyfryd hefyd yw estyn ein llongyfarchiadau i Emily Maltman am ennill yn un o gystadleuthau nofio'r Urdd a mynd ymlaen i'r Gala derfynol.